

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain EBRILL 2020
YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:

Dim Cyfarfod oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cyngorwyr trwy e-bost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 17eg MAWRTH 2020 YN GYWIR.
I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Prif Weithredwr.

Y Gymdeithas.

Derbyniwyd sawl cais gan unigolion a sefydliadau i ryddhau arian i helpu ddelio efo effeithiau argyfwng Covid - 19 ar drigolion Ynys Mon. Penderfyniad i ryddhau £200,000 (fel swm cychwynol) yn ymateb i unrhyw gais penodol. Gawhoddid ceisiadau am wariant gan fudiadau drwy ffurflen gais sydd ar wefan y Cyngor Sir er bod y Gymdeithas bellach yn gorff ar wahan i'r Cyngor Sir. Gwybodaeth.

4. Technegydd Adran Stadau.

Y Cyngor Sir yn casglu gwybodaeth ar y manau claddu sydd ar gael ar yr Ynys trwy arolwg gyda Cyngorau Lleol: o ganlyniad i argyfwng (Covid 19) Maer mater hwn yn flaenoriaeth frys. Amcangyfrif o'r manau claddu sydd ar ol.

Y Cyngor Sir wedi cysylltu a'r Clerc. Wedi rhoi y manau claddu yn wardiau Bodwrog, Heneglwys a Llandrygarn. Wedi rhoi y gwybodaeth fod Mynwent Gymunedol Bodffordd yn eiddo i'r Cyngor Cymdeithas.

5. Swyddog Polisi.

FW: Datganiad - Cymdeithas Elusennol i ryddhau cyllid "Coronafeirws" hanfodol. Helpu i leihau tlodi, salwch a chaledi a achosir ymysg trigolion Ynys Mon. (Gweler Rhif 3)

6. Swyddog Polisi.

FW: Datganiad - Cadwch gwn dan reoleth mewn manau cyhoeddus. Cwynion diweddar am gwn oddi ar ei tennyn sydd yn neindio i fyny ar aelodau o'r cyhoedd. Yn golygu bod yn rhaid i'r perchnogion dorri'r canllawiau cadw pellter cymdeithiasol o 2fedr er mwyn mynd yn ol eu cwn. Holl berchnogion i gadw eu cwn ar dennyn wrth fynd a nhw am dro er mwyn cad rheolaeth. Mae'r fenter lead yn nodi bod angen cadw cwn o dan reolaeth. Bydd yr Heddlu yn gwilio.

Codwyd y mater gan Cyng E W Roberts gyd'r Clerc ar ol cwyn gan drigolion Bodffordd ar llwybr a Maes Parcio am y goedwig (Maes Parcio wedi ei gau) Y Clerc wedi cysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir gyda copi i'r Cyngorwyr Sirol Mrs N Roberts a Bob Parry a Dylan Rees. Cyng Mrs N Roberts a Bob Parry wedi cydnabod a cymryd y mater i fynnu. Nid oes datblygiad erbyn hyn.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Amcangyfrif.

Ffensio Cae Chwarae Bodffordd (Paul Owen)

Adnewyddu pob ffens sydd wedi torri ac ychwanegu 10 postyn ychwanegol. Defnyddiau £580.00 + llafur £400.00. Cyfanswm £980.00.

Cynghorwyr yn gweld y pris dipyn yn serth ac yn gofyn am amcangyfrif ychwanegol. Y Clerc wedi cysylltu a'r Cadeirydd ac yn symad ymlaen.

8. Mae ffurfleni'r Awdit 2019/20 gan BDO yn electronig eleni oherwydd nad ydynt yn eh hanfon trwy'r post (Coronafeirws) Crynodeb o daliadau a derbyniadau diwedd blwyddyn 31.3.20 wedi cael ei cyflwyno i'r Cynghorwyr. Y Cyngor yn unfrydol yn ei cymeradwyo. Y Clerc a'r Cadeirydd yn arwyddo i'w hanfon ymlaen i BDO.

9. Valley Wings. Cylchgrawn.

RHODDION

10. Dim.

PLWYFOL

11. Dim.

MATERION ARIANNOL:

12. Cyfrif Rhedegol £7,237.12. (Grant claddu plant £1,000.00)

TALIADAU:

13. Clerc £220.87.

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.